

Pennaeth Strategol

**Mrs Sara Morris**

✉ SaraMorris@gwynedd.llyw.cymru

☎ 01678 520278



Ysgol Bro Tegid

Heol Tegid

**Y BALA**

Gwynedd

LL23 7BN

Annwyl rieni,

Wel, dyma ni ar ddiwedd hanner tymor prysur iawn. Mae'n siwr fod y plant yn barod iawn am wyliau erbyn hyn!

**Gwaith elusennol** - Mae nifer o weithgareddau wedi bod yn ystod y tymor yma i godi arian tuag at elusennau a'r cyngor ysgol sydd wedi bod yn gyfrifol am y gwaith da yma :-

- Bore coffi Macmillan - £402.50
- Casgliad y gwasanaeth Diolchgarwch - £141.00 tuag at yr ambiwlans awyr
- 'Operation Christmas child' - 83 o focus esgidiau yn llawn anrhegion wedi dod i'r ysgol eleni.
- Plant mewn Angen - £165.00- cafwyd ymweliad gan griw Radio Cymru a Pudsey ei hun!

**Newyddion chwaraeon** - Mae'r timau pelrwyd, y criw gymnasteg a'r rhai fu'n cynrychioli'r ysgol yn y gala nofio wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr hanner tymor yma. Bydd y ddau dîm pelrwyd yn mynd yn eu blaenau i gystadleuaeth y rhanbarth ar y 31ain o Ionawr. Mae grŵp gymnasteg Saran a Saran (unigol) wedi mynd ymlaen i'r gystadleuaeth genedlaethol yn Aberystwyth ar y 7fed o Chwefror. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**Ffair Nadolig** - Cafwyd ffair Nadolig lwyddiannus iawn diolch i drefniadau gwych gan y cyfeillion ysgol. Casglwyd swm anhygoel o £1,086. Diolch arbennig i bawb fu'n helpu a chefnogi ar y noson.

**Cystadleuaeth siopa hwyr Y Bala** - creu llusern allan o ddeunyddiau wedi eu hail-gylchu. Roedd yr ymateb yn wych unwaith eto eleni. Diolch arbennig i chi fel rhieni am eich cefnogaeth. Roedd canmoliaeth uchel iawn gan y beirniaid. Dyma'r rhai gafodd wobrau eleni :-

**Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2**

1af - Gwilym Fergus-Jones

2il - Owen Hughes

3ydd - Tomos Huw Roberts

**Blwyddyn 3 a 4**

1af - Lia Rowlands

3ydd - Cadi Llywela

**Blwyddyn 5 a 6**

1af - Josh Mackintosh

2il - Lilley Williams

3ydd - Owen Edkins

**Pantomeim Blwyddyn 4, 5 a 6** - Yn anffodus bu'n rhaid canslo'r pantomeim oherwydd yr eira. Gan fod yr arian wedi ei fancio mi fyddwn yn cadw cofnod o enwau pawb sydd wedi talu ac yn defnyddio'r arian yma i dalu am eu trip nesaf gan obeithio fod y trefniant yma yn iawn gyda chi.

**Sioe Nadolig** - Cafwyd sioe ardderchog eleni yn Ysgol y Berwyn a'r Neuadd yn orlawn. Diolch i'r staff am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd yn hyfforddi'r plant. Diolch arbennig i'r holl blant am ddysgu eu gwaith mor dda a rhoi perfformiad i'w gofio ar y noson.

**Digwyddiadau gweddill yr wythnos :-**

<b>19/12/'17</b>	Disgo Nadolig gyda Dylan yr Urdd (disgyblion Blwyddyn 3 - 6) yn Neuadd Bro Tegid am 5.30 - 7.00 o'r gloch. Bydd disgyblion rhai o ysgolion eraill y dalgylch yn ymuno â ni.
<b>20/12/'17</b>	Disgyblion chweched dosbarth Ysgol y Berwyn yn dod i wneud pantomeim i holl blant yr ysgol. Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn canu yn Awel Y Coleg a Chysgod Y Coleg
<b>21/12/'17</b>	Parti Nadolig y plant yn y prynhawn. Rhieni disgyblion Blwyddyn 3 - 6 sydd yn cyfrannu tuag at y bwyd. Y bwyd i mewn ar y diwrnod os gwelwch yn dda. Pawb i ddod yn eu dillad eu hunain drwy'r dydd.
<b>22/12/'17</b>	Diwrnod gwisgo siwmpwr Nadolig a jins/ leggings/ trowsus/ sgert!! £1 tuag at elusen Achub y plant os gwelwch yn dda.  <b>Yr ysgol yn cau am y gwyliau!</b>

Croesawn ein gofalwraig newydd, Mrs Rhiannon Jones ar staff yr ysgol. Mae hi wedi ymgartrefu yn dda iawn yma gyda ni yn barod a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yma.

**Bydd yr ysgol yn ail-agor i'r disgyblion Dydd Mawrth, y 9fed o Ionawr.**

Ar ran holl staff yr ysgol hoffwn ddimuno Nadolig Llawen i chi gyd a Blwyddyn Newydd Dda gan ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y tymor diwethaf.

Mwynhewch yr ŵyl!

Sara Morris

